*Atodiad A*

# Cyd-arolygiad AGGCC/AGIC:Cynllun Gwella

## Ardal:Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Awdurdod Lleol Gwynedd

## Dyddiad yr arolygiad: 10 – 12 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn Allweddol 1** | | | |
| 5 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynllunio a blaenoriaethu adnoddau ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu. Yn benodol, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn casglu data a gwybodaeth berthnasol gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaeth sy'n gallu dangos yn glir sut y mae'n bodloni anghenion (ac yn cynllunio i fodloni anghenion yn y dyfodol) y boblogaeth bresennol sydd ag anableddau dysgu. | Mae’r bwrdd iechyd yn ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff a rhanddeiliaid yn chwarae rhan lawn wrth ddatblygu modelau gofal effeithiol ar gyfer anableddau dysgu. Mae'r bwrdd iechyd ynghyd â'i bartneriaid strategol wedi cytuno i ddatblygu strategaeth integredig ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu ledled gogledd Cymru.<br><br>Bydd cyfnod cyntaf y gwaith hwn yn ymgymryd ag adolygiad strategol o'r gwasanaethau | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro | Mai 2016 – Mawrth 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr heriau penodol a nodwyd yng Ngwynedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer:<br>• Pobl ag ymddygiad heriol<br>• Pobl ag anghenion cymhleth<br>• Seibiant<br>• Gwasanaethau i bobl iau gydag anableddau dysgu sydd angen gofal nyrsio<br>• Pobl hŷn sydd ag anableddau dysgu<br>• Pobl sydd ag awtistiaeth. | presennol, a bydd sefydliad allanol yn cael ei benodi i gefnogi'r gwaith hwn. Rhagwelir y bydd y sefydliad hwn yn derbyn y contract erbyn diwedd mis Mai. Bydd y meysydd arbenigol sy'n cael eu nodi yn adroddiad Gwynedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.<br><br>Y bwriad yw cyflwyno'r adroddiad ar yr adolygiad strategol yn ôl i'r bwrdd iechyd a'r partneriaid ym mis Hydref 2016, gyda'r strategaeth a'r blaenoriaethau tair blynedd wedi'u cwblhau erbyn mis Mawrth 2017.<br><br>Mae BIPBC yn cyfrannu fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru at swydd bwrpasol Swyddog Cyfranogi i hwyluso ymgysylltu ystyrlon mewn cyfryngau gwahanol gyda defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â chynllunio a chomisiynu darpariaeth iechyd a lles.<br><br>Cafodd tîm arwain yr isadran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ei adolygu, ac o ganlyniad i hynny, mae Cyfarwyddwr Nyrsio a Chyfarwyddwr | Rheolwyr Ardal Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Meddygol wedi eu penodi. Mae'r broses ddethol ar gyfer Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi dechrau, a chynhelir y cyfweliadau olaf yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 25 Ebrill 2016. Cyfrifoldeb y tîm arwain isadrannol bydd perfformiad strategol y gwasanaeth anableddau dysgu.<br><br>Cyflawnwyd adolygiad o'r strwythur Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a daethpwyd i gytundeb i gadw'r gwasanaethau anableddau dysgu fel nodwedd arbennig o fewn yr isadran.<br><br>Rydym yn ystyried gweithredu model triwriaeth o arweinyddiaeth o fewn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu i wella'r atebolrwydd gweithredol yn y gwasanaethau anableddau dysgu.<br><br>Bydd Cyfarwyddwr Clinigol pwrpasol yn cael ei benodi ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu a fydd yn hanfodol wrth roi cyngor i'r bwrdd iechyd a phartneriaid ynghylch y modelau gofal | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro<br><br>Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro<br><br>Cyfarwyddwr | Ebrill 2016<br><br>Mehefin 2016<br><br>Mehefin 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gorau ar gyfer y grwpiau penodol o unigolion a nodwyd yn yr adolygiad. | Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro<br><br>Cyfarwyddwr Meddygol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | |
| | Cwestiwn Allweddol 2 | | | |
| 7 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod timau iechyd yn casglu, yn ymateb i, ac yn dysgu o adborth pobl er mwyn gwella gwasanaethau. | Mae tîm arwain yr is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi datblygu grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sy'n cynnwys | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac | Ebrill 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau anableddau dysgu o ran adrodd ac aelodaeth, ac sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Sefydlwyd nifer o is-grwpiau, sy'n adrodd i'r grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, ac mae ffrydiau gwaith wedi dechrau sy'n cynnwys profiad defnyddwyr gwasanaeth. | Anableddau Dysgu | |
| | | Mae BIPBC wedi datblygu strategaeth profiad defnyddwyr gwasanaeth newydd yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd ac a fydd yn pennu'r cyfeiriad o ran adborth ar draws yr holl wasanaethau. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Gorffennaf 2016 |
| | | Bydd pennaeth profiad defnyddwyr gwasanaeth BIPBC yn aelod sefydlog o'r grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br>Mai |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae gan y Gwasanaethau Anableddau Dysgu Grŵp Llywodraethu Clinigol sefydledig sy'n cwrdd bob mis, ac un o'r eitemau parhaol ar ei agenda yw hanes cleifion mewn gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cleifion mewnol – mae hyn yn gyfle i'r timau amlddisgyblaethol ddysgu ac ystyried adborth yn uniongyrchol gan gleifion a gofalwyr. Mae'r wybodaeth hon yn llywio cyfarfod cyffredinol yr is-adran ar Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ac yn helpu i lunio Cynllun Cyflawni Ansawdd Gwasanaethau Anableddau Dysgu.<br><br>Mae'r gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Anffafriol Difrifol yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd gweithredol ar gyfer staff o bob gradd. | Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu.<br><br>Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu | 2016<br><br>Mai 2016 |
| 7 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff rheng flaen yn teimlo pe baent yn gysylltiedig ac yn ymgysylltiedig â gweledigaeth y bwrdd trwy | Mae nodau strategol y bwrdd iechyd yn cydnabod bod ymgysylltu â staff yn sylfaen allweddol er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol. | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac | Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | wella trefniadau cyfathrebu a'r llif o wybodaeth. | Mae'r Prif Weithredwr newydd eisoes wedi ymgymryd â rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff, yn anfon cyfathrebiad bob wythnos at yr holl staff, ac wedi creu fforwm arweinyddiaeth ar gyfer pob safle. | Anableddau Dysgu Dros Dro | Ebrill 2016 |
| | | O fewn yr is-adran, mae prosesau llywodraethu wedi cael eu hadolygu, mae grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi'i ddatblygu, ac mae is-grwpiau wedi'u ffurfio gyda ffrydiau gwaith penodol sy'n cynnwys staff anableddau dysgu. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mai 2016 |
| | | Mae ymweliadau'r Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael eu trefnu ac yn cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu i gleifion mewnol ac yn y gymuned. Mae cyfarfodydd metronau misol wedi dechrau ac yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae fforymau rheolwyr wardiau yn cynnwys staff anableddau dysgu. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mehefin 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn adolygu ei threfniadau ar hyn o bryd ar gyfer ymchwilio adborth penodol gan staff a byddant yn cytuno ar broses newydd ar gyfer adborth yn 2016-17. | Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | |
| | **Cwestiwn Allweddol 3** | | | |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i nodi ffyrdd gwell o weithio, gyda'r nod o wella prosesau'r Cyngor Iechyd Cymuned pan fo hynny'n briodol. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod timau staff wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt wybodaeth gyson a chlir ynghylch cyflwyno ceisiadau i'r Cyngor Iechyd Cymuned. | Mae BIPBC newydd greu'r swydd ac wedi penodi rheolwr comisiynu ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned a fydd yn arwain y Cyngor Iechyd Cymuned gyda phartneriaid.<br><br>Bydd hyfforddiant diweddaru yn cael ei drefnu ar gyfer staff anableddau dysgu yng Ngwynedd a'i gynnwys yn y cynllun hyfforddiant ehangach ar gyfer staff eraill yn yr is-adran. | Cyfarwyddwr Nyrsio<br><br>Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu a Phennaeth Rheoleiddio Dros Dro | Ebrill 2016<br><br>Mehefin 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod pobl yn cael cynnig offer sy'n bodloni eu hanghenion asesedig mewn modd amserol. | Bydd yr is-adran yn cyflawni archwiliad o'r anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd mewn cyswllt ag offer ar gyfer tîm Gwynedd ac yn codi unrhyw broblemau sydd angen sylw gyda chydweithwyr yng ngwasanaethau anableddau dysgu Gwynedd.<br><br>Wrth symud ymlaen, bydd unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol gan ddefnyddio'r system Datix. | Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Mehefin 2016<br><br>Mai 2016 |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau goruchwyliaeth ar gyfer staff o fewn y gyfarwyddiaeth i sicrhau bod mynediad at oruchwyliaeth glinigol briodol ac arbenigol gan yr holl staff pan fo angen. | Mae gan y bwrdd iechyd Ganllawiau Goruchwyliaeth Glinigol newydd, a ddaeth yn gymwys ym mis Ionawr 2016. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r holl staff anableddau dysgu yng Ngwynedd yn ystod eu cyfarfod tîm amlddisgyblaethol.<br><br>Bydd cydymffurfiad goruchwyliaeth gan reolwyr ar draws gwasanaethau anableddau dysgu yn | Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Ardal | Mai 2016<br><br>Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cael ei ychwanegu at gynllun archwilio'r is-adran ar gyfer 2016-17. | Gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Arweinydd Llywodraethu | Mehefin 2016 |
| | | Dylai adolygiadau arfarnu a datblygu personol gael eu cynnal bob blwyddyn yn unol â chanllawiau BIPBC. Caiff unrhyw geisiadau ar gyfer goruchwylwyr clinigol penodol, os ydynt yn gall, eu parchu. E.e. Mae Nyrsys Dysffagia yn mynychu grŵp diddordeb arbennig bob tri mis yng ngogledd-orllewin Lloegr; maent yn cael sesiwn goruchwyliaeth gan gymheiriaid yn y bore a goruchwyliaeth glinigol un-i-un yn y prynhawn. Bydd cydymffurfiad ag adolygiadau arfarnu a datblygu personol yn cael ei adolygu ar gyfer tîm Gwynedd, a bydd staff sy'n disgwyl adolygiad arfarnu a datblygu yn cael un. | Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Mai 2016 |
| | | Mae arloesedd clinigol ac arferion gorau yn cael eu datblygu a'u rhannu yn y Grwpiau Rhagoriaeth Glinigol sydd wedi'u sefydlu ym meysydd gwasanaeth craidd anableddau dysgu, e.e. | Rheolwr Ardal Gwasanaetha | Ebrill 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Ymddygiad Heriol, Fforensig, Iechyd Meddwl, ac Anableddau Dwys a Lluosog.<br><br>Ailsefydlwyd Fforwm Nyrsys Proffesiynol Anableddau Dysgu er mwyn rhannu'r arferion gorau, rhwydweithio, ac annog ymchwil a datblygu, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus/cyfleoedd ail-ddilysu. | u Anableddau Dysgu<br><br>Rheolwr Ardal Gwasanaethau Anableddau Dysgu | |
| 10 | Mae’n rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn ymgysylltu â phobl sydd ag anableddau dysgu, gofalwyr a staff, wrth iddo greu gweledigaeth a chyfeiriad y gwasanaeth. | Mae is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC wedi comisiynu sefydliad trydydd sector, Hafal, i'w cynorthwyo o ran ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.<br><br>Mae Gwasanaethau Anableddau Dysgu BIPBC yn cyd-gynnal Cynhadledd Rhanddeiliaid Iechyd a Lles Cymru Gyfan ar 11 Mai ym Mangor. Mae hwn yn ddigwyddiad gwrando a rhannu gwybodaeth a drefnwyd gan Grŵp Cryfhau’r | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro<br><br>Rheolwyr | Ebrill 2016<br><br>Mai 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Ymrwymiad Cymru Gyfan (Strategaeth Nyrsio Anableddau Dysgu). | Gweithredol Gwasanaethau Anableddau Dysgu | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):Jenifer French**

**Teitl: Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

**Dyddiad: 26 Ebrill 2016**